



Dweud Stori'n Weledol

Mae dweud stori'n weledol yn dechneg sy'n cael ei defnyddio gan rai sy'n creu ffilmiau i adrodd y stori drwy'r digwyddiadau ac nid cymeriadau'n egluro drwy'r ddeialog (y geiriau).

Yn hytrach na chael cymeriadau'n egluro eu teimladau neu eu meddyliau (allai fod yn ddiflas i'r gynulleidfa), mae'n haws rhoi gwybodaeth i'r gwylwyr drwy weithred neu symudiadau'r cymeriad.

Cofiwch y rheol hon fel hyn – Dangos, Nid Dweud!

Esiampl 1:

Yn hytrach na chael y cymeriad i weiddi "Rydw i'n hynod grac/flin!" gallech ei ddangos yn rhoi clep galed ar y drws, yn gwgu ac yn cicio cadair. Yna fyddai dim amheuaeth nad ydy'r cymeriad mewn hwyliau drwg a byddai'r gynulleidfa'n deall hynny'n syth.

Gellir hefyd defnyddio dweud stori'n weledol yn effeithiol i ddangos beth mae cymeriad yn ei feddwl. Does dim raid i gymeriad fynegi ei feddyliau drwy siarad, gall y gweithrediadau neu symudiadau helpu'r gwylwyr i ddeall meddyliau a syniadau'r cymeriad.

Esiampl 2:

Yn hytrach na chael eich cymeriad yn dweud "Rydw i am gipio'r dryll oddi ar y robot ac yna dianc" gallech ei ddangos yn edrych ar y robot ac yna'r dryll ac yna at ddrws y llong ofod.



Gweithgaredd: Straeon Sgript

Yn y sgript isod fe welwch bod awdur y sgript wedi cynnwys deialog a hefyd wedi cynnwys disgrifiad i roi gwybod mwy i'r gwylwyr am y cymeriad, Bill.

Wrth i chi ddarllen y sgript, allwch chi ganfod y geiriau a'r cymalau mae'r sgriptiwr wedi ddefnyddio i roi gwybod i'r gynulleidfa am gymeriad Bill?

TU MEWN. LOLFA - HWYR Y PNAWN

Mae BILL (16) wedi ei wisgo'n anffurfiol mewn jîns, crys-T a hosanau sydd dim yn matsio. Dydy Bill ddim wedi ymolchi ers rhai dyddiau. Mae'n gorwedd ar hen soffa flêr mewn lolfa tŷ yn swbwrbia.

Mae BILL yn ceisio darllen cylchgrawn ond yn ei daflu o'r neilltu ar ôl ychydig eiliadau. Mae'n edrych ar ei ffôn symudol - ond does dim negeseuon iddo.

Mae BILL yn defnyddio'r 'remote' i roi'r teledu i fynd. Ar y sgrin daw ffilm am fodau arall fydol yn cipio pobl, ac mae lliwiau llachar, bloeddio a sgrechian yn llanw'r ystafell. Mae BILL yn ymateb drwy eistedd yn syth i'w gwyllo: mae wedi llwyr ymgolli ynddi.

BILL

Wooooow! Leciwn i hynna ddigwydd...!

Yn sydyn, clywir sŵn mawr a chlec! Mae'r ystafell yn llawn mwg.

BILL

Aaah! Be' sy'n digwydd. GADEWCH I MI FYND!

ROBOT

Defnyddiwch y pelydr laser. Cipiwech y bod dynol!

Gwelir pelydr gwyrdd y laser drwy'r mwg. Caiff BILL ei godi oddi ar y soffa...

Sut mae'r sgriptiwr wedi dweud wrth y gynulleidfa am ddiflastod Bill?

.....
.....



Gweithgaredd: Dangos, Nid Dweud!

AR GYFER Y GWEITHGAREDD HWN BYDDWCH ANGEN Y CANLYNOL:

- Camera/tabled/ffôn smart
- Grwpiau o 2-4 o bobl
- Taflen Siotiau Camera
- Templed Bwrdd Stori neu bapur mawr a phin ysgrifennu i greu un eich hunan

Sut i wneud y gweithgaredd hwn

- Dychmygwch mai chi ydy'r sgriptiwr a'ch bod i addasu'r sgript ar gyfer ffilm.
- Mae'r cyfarwyddwr yn credu fod gormod o yn y sgript ac am i chi wneud y golygfeydd yn rhai mwy gweledol a chreadigol.
- Rydych wedi dewis newid y pum llinell isod o ddeialog:
- Rydych wedi dewis y bum llinell canlynol o deialog i newid:
 - "Rydw i eisiau bwyd"
 - "Rydw i wedi colli'r gath"
 - "Rydw i'n flinedig iawn"
 - "Rydw i'n hwyr yn mynd i'r ysgol"
 - "Rydw i'n hynod grac/flin â hi"
- Gan ddefnyddio'r llinellau deialog isod, ysgrifennwch ddisgrifiad byr o'r siotiau fydddech chi'n ffilmio i ddangos sut mae'r cymeriad yn teimlo.

"Rydw i eisiau bwyd!"

"Rydw i wedi colli'r gath!"

"Rydw i'n flinedig iawn!"

"Rydw i'n hwyr yn mynd i'r ysgol"

"Rydw i'n hynod grac/flin â hi!"

- Nawr defnyddiwch y Templed Bwrdd Stori i gynllunio'r siotiau camera fyddwch chi'n ddefnyddio. Ar ôl gorffen hyn, defnyddiwch eich camera, tabled neu ffôn smart i recordio'r siotiau gan anelu i saethu rhwng 10 a 30 eiliad o ffilm.
- Meddyliwch beth fydd angen ei gynnwys yn y siot i egluro i'r gynulleidfa beth mae'r cymeriad yn ei feddwl neu deimlo.
- Pan fyddwch wedi saethu'r olygfa, rhannwch hyn gyda grŵp arall a gofyn iddyn nhw ddyfalu beth mae'r cymeriad yn ei feddwl neu deimlo.